



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Llangwryfon
Neuadd Santes Ursula
Llangwryfon
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4HA**

Dyddiad yr arolygiad: 9-10 Mai, 2012

gan

Dorothy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012:
Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddyweddig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.
Dyddiad cyhoeddi: 11/06/2012

Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Llangwryfon dros 30 mlynedd yn ôl. Mae'n cyfarfod yn Neuadd Santes Ursula, ym mhentref Llangwryfon, ger Aberystwyth. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd o amgylch. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9.00 a 11.30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd saith plentyn tair oed ar y gofrestr. Tri phlentyn sy'n mynychu'r holl sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod o deuluoedd lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Nid oes plentyn ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi addas yn eu lle.

Mae pedair ymarferwraig brofiadol. Mae dwy ohonynt yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2006 ac yn cael ei chynorthwyo gan ddau aelod o staff rhan amser. Cyflogir un aelod o staff i gynorthwyo gydag un plentyn.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd priodol;
- mae gan y plant agweddau da at ddysgu;
- cynigir cwricwlwm diddorol sy'n ennyn diddordeb y plant;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan;
- mae ffocws addas ar ddatblygu medrau cyfathrebu'r plant; a
- chaiff y plant ofal a chymorth da mewn amgylchedd dysgu cynnes.

Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth gydwybodol y prif ymarferydd;
- yr ymarferwyr gweithgar ac ymroddedig;
- agweddau positif tuag at ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant;
- cynllun gwella sy'n cynnwys targedau priodol i ddatblygu'r ddarpariaeth;
- cymorth ac arweiniad pwrpasol y person cofrestredig; a
- phartneriaeth effeithiol gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned.

Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

- A1 gryfhau'r cynllunio i sicrhau bod y medrau yn cael eu datblygu yn fwy cyson ar draws y meysydd dysgu;
- A2 strwythuro'r tasgau ymhellach er mwyn ymestyn medrau dysgu'r plant, yn arbennig y plant hŷn;
- A3 datblygu cyfraniad yr holl ymarferwyr i brosesau asesu, a gwneud defnydd ehangach o'r wybodaeth a gesglir i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu; a
- A4 datblygu gweithdrefnau rheoli a hunan arfarnu ymhellach.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Amherthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol yn y lleoliad yn ystod yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Seilir y gweithgareddau ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r broses o gynllunio mwy ffurfiol gan wneud defnydd llawn o fframweithiau cwricwlaidd sy'n adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn parhau i ddatblygu. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod medrau'r disgyblion yn datblygu'n gyson ar draws y cwricwlwm.

Darperir gweithgareddau priodol i'r plant ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhif, ac i raddau llai, eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd addas i'r plant ymarfer eu medrau gwrando a siarad, edrych ar lyfrau, a gwneud marciau ar gyfer ystod o ddibenion. Rhoddir pwyslais cyson ar ddatblygu medrau personol a chymdeithasol y plant sy'n eu cynorthwyo i ffurfio perthynas dda â phlant eraill ac oedolion. Mae ystod a swm yr offer technoleg gwybodaeth sydd ar gael i'r plant yn gyfyngedig.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r defnydd rheolaidd o'r Gymraeg gan yr ymarferwyr a'r pwyslais ar ehangu geirfa'r plant yn nodwedd amlwg o'r lleoliad. Datblygir ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd addas hefyd i'r plant ddysgu am ddiwyllianau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau, megis trafod agweddau ar fywyd pobl yn Affrica, yn dechrau hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach.

Mae profiadau addas, megis tyfu a gofalu am blanhigion, arsylwi ar nodweddion penodol y tymor a gweithdrefnau ailgylchu yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau addas i gynorthwyo'r dysgu. Ar y cyfan, mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Nid yw'r tasgau ffocws wedi eu strwythuro'n ddigonol bob amser i ymestyn medrau'r plant, yn arbennig y plant hŷn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Mae trefn sefydlog i asesu a chofnodi eu cynnydd a'u datblygiad ar draws y meysydd dysgu. Er hyn, nid oes cyfleoedd digonol bob amser i'r holl ymarferwyr i gyfrannu i'r broses er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth a gesglir i gynorthwyo'r dysgu a'r addysgu. Caiff rhieni eu hysbysu am gynnydd eu plant yn anffurfiol a thrwy adroddiadau addas. Cwblheir ffurflenni gwybodaeth priodol wrth i'r plentyn drosglwyddo i'r ysgol gynradd. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad bolisiâu a threfniadau addas i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Sefydlwyd trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion y plant eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol are eu cyfer. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r awdurdod lleol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cyngor a chefnogaeth addas.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.

Mae'r ystod profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn effeithiol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r sesiynau amser cylch.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Llwyddir i greu ethos cynnes a chroesawgar ar eu cyfer. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol.

Mae nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol. Mae'r adeilad o ansawdd da ac, ar y cyfan, yn cynnig cyfleusterau priodol. Mae'n cynnwys ystafell fawr, cegin, toiledau ac ardal fach tu allan wedi ei ffensio. Mae'r lle storio yn brin. Caiff y lle ei ddefnyddio'n effeithiol, gan gynnwys y lle chwarae allanol, i gynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant i ymchwilio a chwarae. Gwneir defnydd priodol o samplau o waith y plant i greu amgylchedd deniadol.

At ei gilydd, ceir adnoddau dysgu digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Gwneir defnydd pwrpasol o'r gymuned, megis ymweliadau â'r swyddfa bost, fel rhan o'r thema dan sylw. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned megis 'Y Cwrdd Bach' a diwrnod mabolgampau'r ysgol gynradd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar werthoedd cadarn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n gydwybodol. O

dan gyfarwyddyd yr arweinydd, mae strwythur clir i'r sesiynau dyddiol gyda rôl amlwg i bob aelod o staff. Darperir cyfrifoldebau penodol i ymarferwyr unigol megis arwain gweithgareddau mathemategol. Mae polisïau addas yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn trafod yn gyffredinol ond mae gweithdrefnau rheoli a chynllunio mwy ffurfiol yn parhau i ddatblygu.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'r lleoliad a'r ymarferwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r pwyllgor a defnyddir y cofnodion fel sail i gynllunio pellach. Mae perthynas waith effeithiol gyda'r person cofrestredig sy'n ymwelydd rheolaidd. Mae'r lleoliad yn elwa o'u chymorth ac arweiniad. Mae strwythurau priodol mewn lle ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Gyda chefnogaeth yr athrawes gyswllt, mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a hybu medrau iaith Cymraeg y plant.

Gwella ansawdd: Digonol

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro a'u trafod yn rheolaidd gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Cynigir arweiniad manwl a rhoddir strategaethau pwrpasol ar waith. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a gwelir gwelliannau mewn agweddau megis trefniadaeth gweithgareddau.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn cynnwys targedau priodol ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol. Mae'r cynllun yn dechrau cael ei weithredu ond prin yw'r sylwadau sy'n nodi'r cynnydd a wneir.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gyffredinol o gryfderau'r lleoliad. Mae eu gwybodaeth o ddulliau monitro, megis cyd-drafod agweddau ar y ddarpariaeth a chyd-gynllunio'r ffordd ymlaen, yn llai datblygedig.

Mae gan yr ymarferwyr brofiad helaeth o weithio yn y lleoliad ac yn ystod y cyfnod hwn maent wedi mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir mewn agweddau megis datblygu medrau mathemategol y plant. Ceir rhai cyfleoedd i'r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r cydweithio gydag ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad y plant a'u lles. Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r berthynas waith agos gyda'r person cofrestredig yn gosod sylfaen dda ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Mae ymweliadau cyson athrawes gyswllt yr awdurdod lleol yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Trafodir agweddau pellach gyda swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin. Sefydlwyd cysylltiadau addas gyda'r ysgol gynradd trwy ymweliadau gan y plant a thrafodaethau gyda'r staff.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r gymuned. Gwneir defnydd llwyddiannus o'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchon i godi arian i'r lleoliad ac elusennau.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd. Yn gyffredinol, ceir adnoddau digonol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwna'r lleoliad ddefnydd llawn o'r adeilad a'r cyfleusterau.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Mae arian ychwanegol yn cael ei godi trwy ymdrechion caled y pwyllgor rheoli, y rhieni, yr ymarferwyr a'r gymuned. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mae rhai unigolion yn sgwrsio'n barod am eu hoff weithgareddau.

Atodiad 2

Yr arolygydd cyfnodol

Dorothy Morris	Arolygydd Cyfnodol
----------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Gymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.
Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.